# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dydd Gwener, 8 Medi 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd R. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
W.T. Evans, S. Najmi, D. Thomas and R. Evans (yn lle T.J. Jones)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
H. Daniels, Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 2.00pm - 2.45 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd T.J. Jones.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd oedd wedi ei gynnal ar 14eg Mawrth 2017 gan eu bod yn gywir.**

**4. PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - SWYDDOGAETH**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r fframwaith statudol y mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn gweithredu ynddo, ynghyd â'i faes gorchwyl a'i bwerau fel y nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a chyfrifoldebau ychwanegol a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 17eg Ebrill 2013.

**PENDERFYNWYD nodi darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r Canllawiau Statudol sy'n ymwneud â Swyddogaeth Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.**

**5. PENODI HYRWYDDWR DATBLYGU AELODAU**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn manylu ar yr angen i benodi Hyrwyddwr Datblygu Aelodau a chadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygu Aelodau. Byddai'r Hyrwyddwr Datblygu Aelodau yn gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Datblygu Aelodau ar ran y Bwrdd Gweithredol a swyddogion y Tîm Dysgu a Datblygu er mwyn nodi a hybu materion sy'n ymwneud â datblygu Aelodau.

Awgrymwyd y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ymgymryd hefyd â swyddogaeth yr Hyrwyddwr Datblygu Aelodau.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR y dylid ymgorffori rôl Hyrwyddwr Datblygu Aelodau'r Cyngor i swyddogaethau Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.**

6. **AROLWG - AMSERAU CYFARFODYDD**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn manylu ar ganlyniadau cychwynnol arolwg ynghylch amseriad cyfarfodydd, y bu'n rhaid i'r Cyngor ymgymryd ag ef yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Nododd y canlyniadau y byddai'n well gan y mwyafrif o'r aelodau gadw'r trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Ystyriwyd adroddiad ar y canfyddiadau gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad a oedd wedi gofyn am ddadansoddiad pellach o'r ymatebion i ganfod proffil oedran yr aelodau hynny oedd yn ffafrio cyfarfodydd gyda'r nos, a pha Bwyllgorau maent yn eistedd arnynt. Roedd y Gweithgor wedi argymell hefyd y dylid ystyried y posibilrwydd o gynnal sesiwn datblygu Aelodau gyda'r nos.

**PENDERFYNWYD**

**6.1 cyflwyno adroddiad pellach ynghylch amseriadau cyfarfodydd i'r cyfarfod nesaf;**

**6.2 ystyried y posibilrwydd o gynnal sesiwn datblygu Aelodau gyda'r nos.**

7. **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-2017**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y cyfnod 18$^{fed}$ Mai 2016 – 24$^{ain}$ Mai 2017. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

8. **Y NEWYDDION DIWEDDARAF YNGHYLCH RHAGLEN SEFYDLU'R AELODAU 2017**

Gan gyfeirio at gofnod 4 y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 1$^{af}$ Medi 2016, cafodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd ynghylch Rhaglen Sefydlu'r Aelodau 2017 a gwahoddwyd y Pwyllgor i roi sylwadau arno. Er mwyn sicrhau bod y Rhaglen wedi bod yn effeithiol wrth ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i'r Aelodau, gofynnwyd am adborth hefyd gan Aelodau ynghylch cynnig i gynnal grwpiau ffocws.

Dywedwyd bod un neu ddwy sesiwn wedi cyd-daro â chyfarfodydd pwyllgorau, yn anffodus, ac y byddai rhai sesiynau wedi bod ar eu hennill o gael eu cynnal dros ddau ddiwrnod. Dywedodd Swyddogion y byddai gwybodaeth am yr holl sesiynau ar gael ar-lein ar gyfer Aelodau nad oeddent wedi gallu bod yn bresennol. Mynegwyd pryder ynghylch y niferoedd bychain oedd yn bresennol mewn rhai sesiynau, yn arbennig o gofio faint o waith paratoi a wnaed gan swyddogion, ond derbyniwyd nad oedd hi'n ofynnol yn gyfreithiol i fynychu. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai hyn fod yn fater i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei ystyried.

**PENDERFYNWYD**

**8.1 derbyn yr adroddiad;**

**8.2 edrych ymhellach ar y posibilrwydd o aildrefnu'r daith ymgynefino â gogledd a gorllewin y Sir ar gyfer yr Aelodau sydd newydd gael eu hethol;**

**8.3. croesawu'r cynnig i gynnal grwpiau ffocws.**

9. **BLAENRAGLEN WAITH PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried blaenraglen waith ar gyfer 2017/18 a oedd yn rhoi Eitemau Agenda i'r Aelodau ar gyfer Cylch 2017/18 y Pwyllgor Democrataidd.

Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r flaenraglen waith hefyd gynnwys eitemau ar ddarpariaeth TG yr Aelodau ac adolygiadau/ gwaith mentora ar ddatblygiad personol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Flaenraglen Waith yn amodol ar gynnwys yr awgrymiadau uchod.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**